**LC573**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru    National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU**    **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (Cychwyn) (Cymru) (Rhif 2) 2002**

Mae'r Gorchymyn hwn yn cychwyn darpariaethau Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 sy'n ymwneud â byrddau iechyd lleol.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw i'r Gorchymyn hwn mewn perthynas â'r materion canlynol.

1. Gwnaeth Gorchymyn Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (Cychwyn) (Cymru) 2002 Rhif 2532 (W. 248) (C.81) gychwyn adran 6 y Ddeddf yn llawn ar 10 Hydref 2002. Gan fod adran 6(2) y Ddeddf yn darparu bod Atodlenni 4 a 5 yn dod i rym, daeth yr Atodlenni hynny hwythau i rym ar 10 Hydref 2002. Ymddengys fod amheuaeth a yw'r Gorchymyn presennol yn dod o fewn pwerau'r Cynulliad gan fod y Gorchymyn yn ymdrin â chychwyn Atodlenni sydd eisoes wedi cael eu cychwyn. Nodyn: Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol mewn cysylltiad â gorchymyn cychwyn SI 1991/1211 (Sesiwn 1990-91 Adroddiad 23). Roedd amgylchiadau'r achos hwnnw ychydig yn wahanol. Fodd bynnag, er i'r adran sy'n cyflwyno'r Atodlen ddod i rym pan gafodd y Ddeddf Gydsyniad y Frenhines, roedd yr adran cychwyn yn darparu'n benodol bod yn rhaid wrth orchymyn cychwyn i roi'r diddymiadau a restrwyd yn yr Atodlen ar waith.

2. Ymddengys fod gwall drafftio yn y pwerau a nodwyd. Mae'r cyfeiriad at baragraffau (d) ac (e)(iii) a (iv) o adran 42(4) yn amhriodol gan nad ydynt yn gysylltiedig â'r darpariaethau y mae'r Gorchymyn hwn yn eu cychwyn.

3. Ymddengys fod cynnwys erthygl 1(3) sy'n nodi mai i Gymru'n unig y mae'r Gorchymyn yn berthnasol, yn golygu defnyddio'r pwer galluogi mewn modd anarferol neu annisgwyl. Er, mewn perthynas â rhai darpariaethau, bod pwerau'r Cynulliad o dan adran 42 (yn is-adran (4)) yn nodi'n glir eu bod i'w harfer yng Nghymru, nid oes cyfyngiad o'r fath yn adran 6 (ac o ganlyniad Atodlenni 4 a 5). Gan mai ymdrin â strwythur y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn unig y mae adran 6, mae'n briodol i'r Cynulliad arfer ei bwer cychwyn yn llawn ar yr egwyddor y bydd Deddfau Seneddol yn "ymestyn" i awdurdod cyfraith unedig Cymru a Lloegr.

Mick Bates AM
**Chair, Legislation Committee**

10 December 2002